# Y Pwyllgor Menter a Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 12 Hydref 2011** |
| Amser: | **10: - 12:00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_12_10_2011&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Nick Ramsay (Cadeirydd)**<br>**Byron Davies**<br>**Keith Davies**<br>**Julie James**<br>**Alun Ffred Jones**<br>**Eluned Parrott**<br>**David Rees**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Joyce Watson**<br>**Leanne Wood** |
| Tystion: | **Leighton Andrews, Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**<br>**Jeff Cuthbert, Y Dirprwy Weinidog Sgiliau**<br>**Owen Evans, Cyfarwyddwr, Higher Education & Lifelong Learning Group**<br>**Gwen Kohler, Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Performance & Financial Management**<br>**Edwina Hart, Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth**<br>**James Price, Cyfarwyddwr Cyffredinol, BMTG**<br>**Rob Hunter, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol** |
| Staff y Pwyllgor: | **Siân Phipps (Clerc)**<br>**Ryan Bishop (Dirprwy Glerc)**<br>**Anne Thomas (Ymchwilydd)**<br>**Ben Stokes (Ymchwilydd)** |

## 1. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Daeth ymddiheuriadau i law gan Ken Skates AC. Roedd Jenny Rathbone AC yn dirprwyo ar ei ran.

## 2. Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-2013: Sesiwn Graffu ar Waith y Gweinidog

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Leighton Andrews AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, a Jeff Cuthbert AC, y Dirprwy Weinidog Sgiliau, i'r cyfarfod. Bu'r Aelodau'n holi'r Gweinidogion.

2.2 Cytunodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau i anfon yr eitemau a ganlyn i sylw'r Pwyllgor:

- Enghreifftiau o uno colegau sydd wedi arwain at arbedion.
- Ffigyrau sy'n ymwneud â'r cyllid ychwanegol a fydd ei angen i gwrdd â'r cynnydd mewn ffioedd dysgu i fyfyrwyr Cymru, a ffigurau sy'n gysylltiedig â tharddiad y cyllid ychwanegol hwn.
- Nodyn ynghylch y cynnydd mewn cyllid a fydd ar gael ar gyfer y Coleg Ffederal ac Athrofa Prifysgol Blaenau'r Cymoedd.
- Nodyn ynghylch a gaiff y dyraniad cyllidebol ar gyfer Uned Gyflawni'r Iaith Gymraeg ei ddefnyddio ar gyfer oedolion sy'n dysgu Cymraeg.
- Nodyn ynghylch y dyraniad cyllidebol ar gyfer y Mudiad Ysgolion Meithrin.

## 3. Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-2013: Sesiwn Graffu ar Waith y Gweinidog

3.1 Croesawodd y Cadeirydd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth a'i swyddogion i'r cyfarfod. Bu'r Aelodau'n holi'r Gweinidog.

3.2 Cytunodd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth i anfon yr eitemau a ganlyn i sylw'r Pwyllgor:

- Nodyn ar y trosglwyddiadau cyllidebol a wnaed hyd yn hyn rhwng gwahanol rannau o bortffolio'r Gweinidog.
- Papur ar y cynllun cyllid busnes ad-daladwy.
- Mewn perthynas â'r cynllun buddsoddi i arbed a'r rhaglen effeithlonrwydd ac arloesi, manylion ynghylch unrhyw brosiectau llwyddiannus a pha arbedion a gaiff eu gwireddu o ganlyniad i'r prosiectau hyn.

## 4. Papurau i'w nodi

4.1 Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a ganlyn:

· Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-2013: tystiolaeth gan Huw Lewis

## Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.